# Integreiddio Isadeiledd Gwyrdd a Gwella Bioamrywiaeth mewn datblygiad.

## Canllaw Arfer Da
## Datganiadau Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer datblygiadau mawr

**2025**



Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol
County Borough Council

This document is also available in English.

# Cyd-destun

## Yn 2024 diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru gan Lywodraeth Cymru.

Ei nod yw sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu tuag at ddarparu datblygiad cynaliadwy a gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
Mae Rhan 6 y polisi'n dweud bod yn rhaid i bob prosiect adeiladu newydd gyflwyno Datganiad Isadeiledd Gwyrdd.
Mae yno arweiniad ar Isadeiledd Gwyrdd a sut i gyflawni budd net i fioamrywiaeth.

**ag isadeiledd gwyrdd a dyluniad sy'n gwella bioamrywiaeth. Mae hefyd yn nodi'r Dull Graddol.**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eisiau:

1. Gwarchod, gwella, creu ac adfer cynefinoedd i greu rhwydwaith gwydn o fywyd gwyllt a bioamrywiaeth
2. Hwyluso amgylchedd glas sy'n ffynnu
3. Hybu twf cynaliadwy a datblygiad economaidd drwy isadeiledd gwyrdd
4. Annog, hwyluso a hybu ffyrdd iach o fyw a gwella lles
5. Gwella cysylltedd




**Isadeiledd gwyrdd** yw rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sydd ar wasgar rhwng lleoedd ac yn creu cysylltiadau rhyngddynt.
Ffurfir isadeiledd gwyrdd o rannau sy'n gallu gweithio ar wahanol faint neu raddfa:

- **Graddfa'r dirwedd** — gall gynnwys ecosystemau cyfan fel gwlyptiroedd, dyfrffyrdd a mynyddoedd.
- **Graddfa leol** — gall gynnwys parciau, caeau, hawliau tramwy cyhoeddus, rhandiroedd, mynwentydd a gerddi.
- **Graddfa lai** — gall gynnwys ymyriadau trefol unigol fel coed ar y strydoedd, gwrychoedd, ymylon ffyrdd, a thoeau / waliau gwyrdd.

**Budd net i fioamrywiaeth** — golyga hyn y dylai unrhyw ddatblygiad adael ecosystemau a bioamrywiaeth mewn cyflwr llawer gwell nag yr oeddynt ynghynt. Gwneir hyn drwy sicrhau budd ar unwaith ac yn yr hirdymor, sy'n fesuradwy ac yn amlwg – a hynny'n bennaf ar y safle neu, os yn bosibl, yn union wrth ymyl y safle.



# Cyflwyniad



## Pa bryd mae angen Datganiad Isadeiledd Gwyrdd?

Dylai Datganiad Isadeiledd Gwyrdd:

- gael ei gyflwyno gyda phob cais cynllunio
- bod yn gymesur i raddfa a natur y datblygiad arfaethedig
- disgrifio sut mae isadeiledd gwyrdd wedi ei ymgorffori i'r cynnig.

Dylid ei gyflwyno gyda phob cais cynllunio llawn, amlinellol, a cheisiadau deiliaid tai.

Os ydych eisiau cyngor cyn gwneud cais, awgrymwn eich bod yn anfon drafft o'ch Datganiad Isadeiledd Gwyrdd atom hefyd.

## Pwy ddylai ei ysgrifennu?

Rhywun sydd â throsolwg o'r holl brosiect ddylai lenwi'r Datganiad Isadeiledd Gwyrdd – gallai fod yr ymgeisydd, asiant neu bensaer.

Dylid defnyddio dadansoddiadau ac arolygon rhagarweiniol o'r safle ac arolygon ecolegol i lywio'r dyluniad a'r cynllun, a gellir trafod hyn ar y cam cyn gwneud cais. Os gwneir hyn, gall swyddogion roi cyngor a gellir diwygio'r dyluniad cyn cyflwyno cais.

## Pryd ddylai gael ei ysgrifennu?

Dylid llunio Datganiad Isadeiledd Gwyrdd yng nghamau cynnar datblygiad er mwyn gwneud yn siŵr bod syniad dyluniad yn bodloni polisi ac amcanion isadeiledd gwyrdd.

Yn ddelfrydol, dylid defnyddio dadansoddiadau ac arolygon rhagarweiniol o'r safle i arwain y dyluniad a'r cynllun a gyflwynir ar y cam cyn gwneud cais. Os gwneir hyn, gall swyddogion roi cyngor cyn cyflwyno cais.

## Beth ddylai fod mewn Datganiad Isadeiledd Gwyrdd?

Mae Datganiad Isadeiledd Gwyrdd yn ffordd effeithiol o ddangos canlyniadau amlswyddogaethol cadarnhaol sy'n briodol i'r safle dan sylw.  Mae'n rhaid ei ddefnyddio ar gyfer dangos sut y dilynwyd y Dull Graddol.

# Beth yw'r Dull Graddol?

Mae'n rhaid i Ddatganiadau Isadeiledd Gwyrdd ddangos sut mae penderfyniadau am ddyluniad, lleoliad, graddfa, dwysedd a chynlluniau eraill wedi ystyried gwarchod bioamrywiaeth ac wedi defnyddio hynny i roi'r canlyniadau gorau.

**Mae'r Dull Graddol o gymorth i gynllunio ganolbwyntio ar effaith.**

### Osgoi effaith

A oes ffyrdd o gadw a gwella cynefinoedd a rhywogaethau presennol? Bydd angen dangos bod dewisiadau eraill rhesymol – a fyddai'n arwain at lai o niwed, dim niwed neu fudd – wedi eu hystyried ac na allant gael eu cyflawni.

### Lleihau effaith

Pan fydd dewisiadau parthed lleoliad a'r modd y lleolir wedi eu dihysbyddu, bydd yna ofyniad i leihau unrhyw effeithiau. Gellir cyflawni hyn drwy gynnal cymaint o gynefin ag sy'n bosibl, gan gadw nodweddion presennol a defnyddio datrysiadau arloesol i leihau difrod.

### Lliniaru effaith

Dylid cymryd camau i leihau unrhyw golled a difrod. Dylai mesurau lliniaru fod yn gyfatebol yn achos cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaethol.

### Gwneud iawn am effaith

Os oes difrod neu golled, mae'n rhaid gwneud iawn am hynny. Gall hyn gynnwys canfod ffyrdd o greu neu adfer cynefin.

# Dull o weithio ar gyfer Datblygiadau Mawr

Gan gynnwys mwy nag 1 annedd, gwaith trawsnewid mwy, safleoedd manwerthu/masnachol gwersylla/sefydlog newydd, datblygiad ynni adnewyddadwy [KS1], cludiant a chynlluniau amddiffyn yr arfordir /llifogydd.

**Mae'n rhaid cefnogi cynigion â Datganiad Isadeiledd Gwyrdd a Bioamrywiaeth byr sy'n cynnwys:**


- Arolygon rhagarweiniol addas, sgrinio, dadansoddi safleoedd i nodi effeithiau a chyfleoedd, gan gynnwys cadw, gwella, a rheoli nodweddion ecolegol yn yr hirdymor e.e. clwydi ystlumod, cyfleoedd i adar nythu, coetir, coed, gwrychoedd brodorol, dolydd, llynnoedd, coridorau cynefinoedd; byffro gwrychoedd a chyrsiau dŵr, ardaloedd chwilota, clwydo, lloches.
- Cymhwyso **Safonau Adeiladu Gyda Natur** Ffurflen Safonau – Adeiladu gyda Natur. Lle bo'n bosib, adeiladau i gynnwys: paneli solar, a phympiau gwres yr awyr yn unol â pholisïau lleihau carbon, waliau a thoeau gwyrdd, waliau cerrig lleol, casglu dŵr glaw, briciau gwenoliaid, blychau ystlumod.
- **Datganiad Bioamrywiaeth** sy'n amlinellu'r Dull Graddol o weithio tuag at egwyddorion DECCA i gynnal ac osgoi effaith negyddol i nodweddion ecolegol, o fewn ac o amgylch y safle, a sicrhau buddion net ar gyfer bioamrywiaeth.




- **Datganiad Isadeiledd Gwyrdd** sy'n amlinellu'r asesiad Isadeiledd Gwyrdd a chynigion o amgylch y safle a ddylai gynnwys:
  - Gwelliant nodweddion presennol a gedwir (er enghraifft, llenwi a lledu gwrychoedd a chynnal parth byffro eithrio adeiladu o fewn 3 metr, creu ardal prysg sy'n cyfuno ecoleg ger ymylon coetir, gwella cynefinoedd presennol gyda chynlluniau rheoli cadwraeth priodol - lleihau cyfnodau rhwng torri gwaith, prysgoedio, gosod gwrychoedd, rheoli coetir, rheoli rhywogaethau nad ydynt yn frodorol, gwella cysylltedd i gynefinoedd a choridorau ehangach.
  - Ardaloedd deniadol ar gyfer seibiant/myfyrio/cyfarfod (cerflun, mainc picnic a seddi), mannau agored amrywiol (gofod chwarae naturiol/perllan gymunedol/gwrychoedd sy'n cynnwys pethau bwytadwy/dolydd/pyllau dŵr) ymysg tai at ddibenion hamdden/bioamrywiaeth/Systemau Draenio Cynaliadwy.
  - Cynllun rheoli hirdymor (sy'n 30 mlynedd o hyd, os nad oes cytundeb arall), sy'n cynnwys amserlenni gwaith blynyddol er mwyn cynnal a rheoli cyfrifoldebau clir isadeiledd gwyrdd yn effeithiol, mecanweithiau ariannu, ac amcanion ar gyfer monitro, adolygu, addasu lle bo'r angen, ac adrodd.
  - Cynnal ac ymestyn gorchudd canopi coed drwy blannu coed mewn mannau agored cyhoeddus, gerddi newydd, gwasanaethau stryd. Efallai bydd adfywiad naturiol yn cael ei annog ger coetir presennol.
  - Ail broffilio/brodori coridor dyfrffyrdd, tynnu rhwystrau ar gyfer rhywogaethau mudol (gosod bylchau pysgod, tynnu strwythurau a wnaed gan bobl), ymyraethau geomorffolegol, gwrthglawdd naturiol, coridorau ger nentydd gyda ffensys da byw.
  - Amrywiaeth o ran strwythurau a rhywogaethau er budd bywyd gwyllt mewn tirlunio meddal, i gynnwys, ond heb ei gyfyngu i: Coed safonol, coed chwip, llwyni, gwrychoedd lluosflwydd gwydn sy'n addas ar gyfer peillwyr, perllan dreftadaeth, dolydd, bonion coed, swbstrad amrywiol a gerddi glaw.
  - Osgoi defnyddio mawn neu amharu pridd mawn.
  - Cyfyngu ar dynnu neu fewnforio uwchbridd. Ailddefnyddio swbstrad fel triniaeth arwynebol gan ddarparu topograffi a chynefinoedd. Byddai'n debygol bod angen cynllun rheoli pridd ar gyfer datblygiad mawr neu pan mae cynnig i dynnu pridd.
  - Toeau gwyrdd neu frown ar siediau, storfeydd beics neu ardaloedd storio gwastraff.
  - Ymylon ffordd gwaith neu flodau gwyllt, creu dolydd ac ardaloedd o lawntiau cyfoethog mewn ardaloedd preswyl.
  - Cynlluniau draenio cynaliadwy a gerddi glaw. Osgoi trapiau silt agored - ychwanegu ysgolion gyli os nad oes modd eu hosgoi. Ymgorffori cyrbau bywyd gwyllt o amgylch rhwyllau agored. Pafin a mannau parcio athraidd.
  - Pyllau a gwlyptiroedd bywyd gwyllt.
  - Darpariaeth rhandiroedd yn unol â pholisi'r Cyngor, gyda gofod tyfu ac addasrwydd wedi'i ystyried a'i ddylunio'n fewnol pan fo'n bosib.
  - Biniau compost, llochesi ar gyfer ymlusgiaid ac amffibiaid.
  - Briciau gwenyn, "banciau gwenyn", pafin a meysydd parcio athraidd.
  - Cynlluniau goleuadau sensitif sydd eu hangen mewn ardaloedd goleuadau'n unig gyda lliwiau sbectrwm 'cynnes' <2700K, gan osgoi llif golau am i fyny, a lle bo'n bosib/briodol defnyddio amserwyr a/neu synwyryddion symudiad. Unedau diffodd llawn (sy'n goleuo'r ardal a fwriedir heb wastraff golau), gan gynnwys amrywiaeth o ddewisiadau goleuo; goleuadau styd 'bat hat' a physt. Mapiau cyfuchlinell lwcs llorweddol sy'n nodi ardaloedd o gynefinoedd lled naturiol yn glir o fewn safleoedd ceisiadau a fydd yn cael eu cynnal fel ardaloedd heb lif oleuadau artiffisial (gwrychoedd/nentydd/dolydd). (gweler canllawiau goleuadau cenedlaethol sy'n dod i ben yn 2024 neu ganllawiau ILP dros dro).
  - Teithio llesol: ystyried cysylltiadau drwy ac i'r safle, pwyntiau mynediad ar gyfer defnyddwyr nad ydynt mewn cerbyd, llinellau dymunol a PROW. Cyfeiriad ar archwiliadau beicio a cherdded yn atodiadau Canllaw Deddf Teithio Llesol Cymru. Llwybrau teithio ar wahân drwy safleoedd mwy a chysylltiadau/gwelliannau i lwybrau gerllaw/lleol.

Gweler enghreifftiau ar y dudalen nesaf

**Sylwer:** Dylai ceisiadau cydamserol neu geisiadau a gyflwynir ar dir gerllaw sy'n debygol o gael ei ddatblygu gael eu hasesu'n gronnus ac yn holistaidd. Ni ddylai llwybrau teithio llesol rhesymegol neu gysylltiadau i gynefinoedd gael eu cyfaddawdu neu eu hamharu gan ddatblygiad mwy diweddar neu ganiatâd cynllunio.




**DIFFODD** Nodiadau


Blwch Nythu Gwenoliaid Duon
Coed Cynhenid
Coed Stryd
To Blodau Gwylltion
Perllannau Ffrwythau Treftadaeth
Gwrychoedd Cynhenid yn Gyforiog o Rywogaethau
Lawnt yn Gyforiog o Rywogaethau
Gardd Law
Llwyni sy'n rhoi Blodau a Ffrwythau
Cloddiau
Dôl Blodau Gwylltion
Gwelyau Garddio Uchel
Pwll Bywyd Gwyllt
Mannau Chwarae Naturiol
Ymyl Ffordd o Flodau Gwylltion
Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy Bioamrywiol
Gaeafdy
Gwaith Plannu Amrywiol ar gyfer Peillwyr
DIFFODD Nodiadau

# Golau

Dau o'r peryglon mwyaf i fioamrywiaeth yw colli a dryllio cynefinoedd. Mae golau artiffisial yn y nos yn ei gwneud yn anos i rywogaethau cynhenid symud o gwmpas gan ei fod yn creu effeithiau rhwystr.

Dylai Datganiad Isadeiledd Gwyrdd a Bioamrywiaeth, arolygon priodol, dadansoddiad o'r safle a'r dyluniad nodi ardaloedd a nodweddion ecolegol allweddol i'w cadw heb i olau artiffisial gael ei daflu arnynt.

Dylid cyfiawnhau cynlluniau goleuo gyda phwrpas a budd clir, dylent gadw at egwyddorion goleuo dyluniad awyr dywyll, goleuo ardaloedd golau'n unig â lliwiau sbectrwm cynnes <2700K, osgoi gwawl yn yr awyr heb unrhyw olau'n cael ei daflu at i fyny, dim llewyrch, a, lle bo'n bosibl neu'n briodol, dylid rheoli'r defnydd gydag amseryddion a / neu synwyryddion symudiad.

Dylid defnyddio unedau diffodd llawn a fydd yn goleuo'r ardal dasg yn unig heb i unrhyw olau gael ei daflu. Gellir defnyddio amrywiaeth o ddewisiadau addas, yn cynnwys 'Bat Hat' Solar, goleuadau styd, a physt. Gallai eiddo sydd â gwedd yn wynebu coridorau tywyll, neu gynefinoedd sy'n cynnal rhywogaethau sy'n sensitif i olau, ymgorffori ffenestri trosglwyddiad golau gweladwy (VLT), bleindiau trydan a gwydr clyfar.  Dylai unrhyw oleuadau diogelwch gael eu cysgodi'n llwyr.

Bydd yn rhaid gosod bleindiau neu gaeadau ar bob ffenestr yn y to, a dylid eu cau pan fo'n dywyll er mwyn atal y golau. Fel arall, gellid defnyddio gwydr clyfar ar unrhyw ffenestri yn y to, goleuadau to neu ffenestri.

Gweler canllawiau cenedlaethol Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Sefydliad Gweithwyr Proffesiynol Goleuadau, ac Awyr Dywyll Cymru am fwy o wybodaeth.






**Heb** fesurau i liniaru golau mewn modd ecolegol sensitif

**DIFFODD** Nodiadau

**Gyda** mesurau i liniaru golau mewn modd ecolegol sensitif

**DIFFODD** Nodiadau

## Diolch am ddarllen

I ganfod mwy a chael ffurflen **Datganiad Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer datblygiadau mwy**, ewch i:
conwy.gov.uk/cy/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Planning-Building-Control-Conservation.aspx



# Atodiad 1

| Cynnwys polisi i nodi Datganiad Isadeiledd Gwyrdd yn unol â PCC12 - Pennod 6 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Categori'r Cais** | **Cwestiynau ar Ffurflen Gais Safonol sy'n berthnasol i PCC 12 - Pennod 6** | **Dogfennau gofynnol lle mae'r datblygiad arfaethedig yn bodloni meini prawf 1-App. Cais yn annilys os nad yw'r ddogfen ofynnol yn cael ei darparu** | **Gofyniad am Ddatganiad Isadeiledd Gwyrdd** | **Ydi'r datblygiad angen caniatâd ar wahân i Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy?** | **Cwmpas a chynnwys Datganiad Isadeiledd Gwyrdd** |
| Caniatâd Cynllunio llawn ar gyfer Datblygiad Perchennog Tŷ (Rhan 3 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990). | Coed a Gwrychoedd<br>Cadwraeth bioamrywiaeth a daearegol | Arolwg Coed BS5837 Asesiad o Effaith a Datganiad Dull Coedyddiaeth<br><br>Arolwg ac Adroddiad Bioamrywiaeth. Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol. Arolwg Rhywogaethau a Warchodir. | Oes | Na. Mae datblygiadau gyda goblygiadau draenio annedd sengl a'r ardal o dir sy'n cael ei gynnwys yn y gwaith adeiladu yn llai na 100 metr sgwâr. | Gall Buddion Net ar gyfer Bioamrywiaeth mewn perthynas ag estyniadau, mân addasiadau ac anheddau sengl eu bodloni drwy fesurau eithaf syml y manylir arnynt yn y Datganiad Isadeiledd Gwyrdd.<br><br>Yn ogystal â manylion yn y Datganiad Isadeiledd Gwyrdd, dylai'r mesurau arfaethedig gael eu cynnwys yn nogfennau'r cais cynllunio megis cynlluniau safleoedd neu wedd luniadau. |
| Caniatâd Cynllunio Amlinellol neu Lawn ar gyfer Datblygiad **Mawr.**[1] | Coed a Gwrychoedd<br><br>Cadwraeth bioamrywiaeth a daearegol<br><br>Asesiad o Berygl Llifogydd | Arolwg Coed BS5837. Asesiad o Effaith a Datganiad Dull Coedyddiaeth<br><br>Arolwg ac Adroddiad Bioamrywiaeth. Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol. Arolwg Rhywogaethau a Warchodir. | Oes | Oes, mae pob datblygiad newydd sy'n fwy nag 1 annedd neu le mae'r ardal adeiladu yn fwy na 100 metr sgwâr neu fwy, angen Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) ar gyfer dŵr wyneb, wedi'u dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau Systemau Draenio Cynaliadwy Safonol Gweinidogion Cymru. | **Caniatâd Cynllunio Llawn**<br>Mae'n rhaid i'r Datganiad Isadeiledd Gwyrdd fod yn "gymesur â graddfa a natur y datblygiad a gynigir a bydd yn disgrifio sut mae isadeiledd gwyrdd wedi ei ymgorffori i'r cynnig. Mae'n rhaid i'r Dull Graddol gael ei ddefnyddio, ac mae gan ddatblygwyr gyfrifoldeb i lunio cynigion sy'n dangos buddion net ar gyfer bioamrywiaeth yn y Datganiad Isadeiledd Gwyrdd.[2] |

1 Mae datblygiadau mawr yn cael eu diffinio yn erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012
2 Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 12 - Ffigur 12

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd | | Dylai dyluniad y system rheoli dŵr wyneb wneud y mwyaf o fanteision bioamrywiaeth.<br><br>Safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy - dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw system draenio dŵr wyneb. | Mae gofyn i Awdurdodau Cynllunio gynnal Asesiad o Isadeiledd Gwyrdd a chyhoeddi'r cofnodion a mapiau o isadeiledd gwyrdd presennol, asedau a rhwydweithiau ecolegol. Dylai ymgeiswyr wneud defnydd o'r wybodaeth sydd ar gael wrth baratoi Datganiad Isadeiledd Gwyrdd.<br>Ffynonellau Gwybodaeth:<br>• Cofnod-Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru[1]<br>• Map Data Cymru[2]<br>• Landmap[3]<br>• Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru[4]<br>• Cronfa Teithio Llesol[5]<br><br>**Caniatâd Cynllunio Amlinellol**<br>Mae'n rhaid i geisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio amlinellol gynnwys Datganiad Isadeiledd Gwyrdd, a all fod yn gyfyngedig o ran manylion hysbys y datblygiad arfaethedig, ond ddim o ran argaeledd ffynonellau i gynnal asesiad o isadeiledd gwyrdd. Dylai'r datganiad gynnwys Dull Graddol o ran asesiad a dangos, mewn egwyddor, y gellir cyflawni buddion net ar gyfer bioamrywiaeth yn y cam cynllunio manwl.<br><br>**Cyn gwneud Cais**<br>Gall cyngor cyn ymgeisio helpu gyda pharatoi datblygiadau mawr a chyflawni buddion net ar gyfer bioamrywiaeth. Gall cyngor cyn ymgeisio hefyd nodi cynlluniau nad yw swyddogion yn credu sy'n debygol o fodloni'r gofyniad ar gam cynnar, a beth fyddai angen ei wneud i fynd i'r afael â phryderon. Gall cyngor cyn ymgeisio gadarnhau'r wybodaeth angenrheidiol sy'n ofynnol mewn cais.<br><br>Mae pan cyfadferiad oddi ar y safle'n cael ei gynnig, bydd y Cyngor yn gallu darparu canllawiau ar gyfraniadau ariannol ac ymrwymiadau angenrheidiol i gynnal mesurau bioamrywiaeth a chynefinoedd. |

1 https://www.cofnod.org.uk/Home?AspxAutoDetectCookieSupport=1
2 https://mapdata.llyw.cymru/
3 https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/evidence-to-inform-development-planning/landmap-the-welsh-landscape-baseline/?lang=cy
4 Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiad Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru
5 Teithio Llesol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Caniatâd Cynllunio Amlinellol neu Lawn ar gyfer Datblygiad **Mawr** sydd angen **Datganiad Amgylcheddol** dan Reoliadau EIA[1] | Fel yr uchod | Fel yr uchod | Oes, fel datblygiad. Gofyniad dwbl ar gyfer Datganiad Isadeiledd Gwyrdd a Datganiad Amgylcheddol. | Oes | mesurau lliniaru arfaethedig. Bydd Rhan III y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys adroddiadau technegol (e.e. adroddiadau ecolegol, arolygon coedyddiaeth).<br><br>Canllawiau'n angenrheidiol ar sut y dylai'r gofyniad deuol am Ddatganiad isadeiledd Gwyrdd a Datganiad Amgylcheddol gael eu hasesu ar wahân a/neu ar y cyd. |
| Caniatâd Cynllunio **Amlinellol** neu **Lawn** ar gyfer Datblygiad **Bach** (ac eithrio Ceisiadau gan berchnogion tai) | Canllaw Coed a Gwrychoedd mewn Datblygiad ond nid mewn 1 cais ar y porth cynllunio<br><br>Cadwraeth bioamrywiaeth a daearegol<br><br>Asesiad o Berygl Llifogydd | Arolwg Coed BS5837. (Cyfeirio ar Nodyn Cyfarwyddyd Ychwanegol 4 neu'r adolygiad diweddaraf).<br><br>Arolwg ac Adroddiad Bioamrywiaeth. (Cyfeirio ar Nodiadau Cyfarwyddyd Ychwanegol 8 ac 8a neu'r adolygiadau diweddaraf).<br><br>Asesiad Canlyniadau Llifogydd | Oes | Oes, heblaw ei fod yn eithriedig fel y soniwyd uchod. | **Caniatâd Cynllunio Llawn**<br>Bydd ceisiadau llawn ar gyfer datblygiad bach yn amrywio mewn maint a graddfa, a bydd angen i'r Datganiad Isadeiledd Gwyrdd gyfateb i'r datblygiad arfaethedig. Mae'n rhaid defnyddio Dull Graddol, ac mae cyfrifoldeb ar ddatblygwyr i gynnig cynigion sy'n dangos buddion net ar gyfer bioamrywiaeth yn y Datganiad Isadeiledd Gwyrdd.<br><br>Wrth baratoi Datganiad Isadeiledd Gwyrdd, dylai ymgeiswyr ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael sy'n berthnasol ac yn gymesur i'r datblygiad bach.<br><br>**Caniatâd Cynllunio Amlinellol**<br>Mae'n rhaid i ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad bach gynnwys Datganiad Isadeiledd Gwyrdd, a all fod yn gyfyngedig o ran manylion hysbys y datblygiad arfaethedig. Er hynny, mae'n rhaid i'r Datganiad Isadeiledd Gwyrdd ddangos, mewn egwyddor, y gellir cyflawni buddion net ar gyfer bioamrywiaeth yn y cam cynllunio manwl. Yn dibynnu ar fath y datblygiad bach sy'n cael ei gynnig, efallai y bydd swyddogion yn cynghori ymgeiswyr i gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio llawn. |

1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017

| Cysyniadau eraill a ddyrannwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ond nid yw'n ddatblygiad yn ei hanfod | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith dymchwel perthnasol mewn ardal gadwraeth** | Dim | - | Mae'r mwyafrif yn annhebygol o ofyn am Ddatganiad Isadeiledd Gwyrdd ac eithrio bod arolygon yn nodi materion penodol megis defnydd ystlumod. | Na | Er nad oes angen am Ddatganiad Isadeiledd Gwyrdd, bydd angen cynnal arolygon rhywogaethau gwarchodedig gyda'r cais, neu fel amod o'r caniatâd cynllunio. |
| **Caniatâd Adeilad Rhestredig** | Dim | - | | Na | Er nad oes angen am Ddatganiad Isadeiledd Gwyrdd, bydd angen cynnal arolygon rhywogaethau gwarchodedig gyda'r cais, neu fel amod o'r caniatâd cynllunio. |
| **Caniatâd hysbysebu** | Dim | - | | Na | Ni fyddai disgwyl iddo effeithio dyletswydd neu fuddion net ar gyfer gofynion bioamrywiaeth. |
| **Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon, defnydd presennol ac arfaethedig** | Na | - | | Na | Pan fo'n berthnasol i'r caniatâd blaenorol, bydd angen i'r Cyngor ddangos buddion net ar gyfer bioamrywiaeth, yn unol â dyletswydd gyffredinol yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau. |
| **Cymeradwyaeth flaenorol - Rhan 6, Rhan 7 a Rhan 24 Atodlen 2 Cynllunio Gwlad a Thref** | Na | - | | Gweler safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy. | Pan fo'n berthnasol i'r caniatâd blaenorol, bydd angen i'r Cyngor ddangos buddion net ar gyfer bioamrywiaeth, yn unol â dyletswydd gyffredinol yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Diddymu neu Amrywio Amod yn dilyn cael Caniatâd Cynllunio | Dim | Dim | | Yn dibynnu ar ba faterion sydd wedi'u cadw i gael eu cymeradwyo.<br><br>Gweler safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy. | Ni waeth os oes angen Datganiad Isadeiledd Gwyrdd, pan fo'n berthnasol i gais materion a gadwyd yn ôl, bydd angen i'r Cyngor ddangos buddion net ar gyfer bioamrywiaeth, yn unol â dyletswydd gyffredinol yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau. |
| Cymeradwyaeth Materion a Gadwyd yn Ôl (Erthygl 4 GRhDC) | Dim | Dim | | | |
| Caniatâd dan Orchmynion Diogelu Coed | Dim (Cwestiynau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch ac Ymsuddiant Honedig yn unig) | Dim | | Na | Dyletswydd gyffredinol yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau. Gellir dadlau y dylid gweithredu amod sy'n gofyn am blannu planhigion newydd i ddiwallu ei ddyletswydd). |
| Hysbysiad o waith arfaethedig i goed mewn ardaloedd cadwraeth | Dim | Dim | | Na | Nid yw hysbysiadau Adran 211 yn gofyn am ganiatâd cyflym, ac nid oes modd gweithredu amodau i sicrhau gwaith plannu planhigion newydd. |
| **Penderfyniadau nad ydynt cael eu pennu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol** | | | | | |
| Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a gaiff eu pennu gan Weinidogion Cymru | Oherwydd maint y datblygiad, byddai Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn gymwys a byddai angen cyflwyno Datganiad Amgylcheddol. Byddai'n ddisgwyliedig paratoi Datganiad Isadeiledd Gwyrdd un ai fel dogfen ar wahân neu wedi'i gynnwys fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol. | | | | |
| Prosiectau Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol sy'n cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth y DU | Oherwydd maint y datblygiad, byddai Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn gymwys a byddai angen cyflwyno Datganiad Amgylcheddol. Byddai'n ddisgwyliedig paratoi Datganiad Isadeiledd Gwyrdd un ai fel dogfen ar wahân neu wedi'i gynnwys fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol. Mae Enillion Net Bioamrywiaeth yn gymwys yn Lloegr ar gyfer ceisiadau trawswladol. | | | | |

# Atodiad 2

## Diogelwch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Mae SoDdGA o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn rhoi cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau cynllunio, o gymryd camau rhesymol, yn unol ag ymarfer priodol eu swyddogaethau, i ymestyn y drafodaeth ynghylch cadwraeth a gwella nodweddion pan mae SoDdGA o ddiddordeb arbennig. Gall datblygiadau o fewn neu wrth ymyl eu ffiniau ddifrodi SoDdGA, ac mewn rhai achosion, wrth ddatblygu cryn bellter i ffwrdd.

| Dynodiad | Statudol neu anstatudol | Ymgysylltiad gyda Dull Graddol |
|---|---|---|
| ACA | Statudol | Osgoi |
| AGA neu RAMSAR | Statudol | |
| SoDdGA | Statudol | |
| GNG | Statudol | |
| Gwarchodfa Biosffer UNESCO | Anstatudol | Cymhwyso Dull Graddol i bennu |
| Parciau Daearegol UNESCO | Anstatudol | |
| SoBoSCN | Anstatudol | |
| Gwarchodfa Natur Leol | Anstatudol | |
| Safle Bywyd Gwyllt Lleol | Anstatudol | |
| SDoBRh | Anstatudol | |
| Ardaloedd o Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Posibl (Cymru'r Dyfodol) | Cynllun Datblygu | |
| Mapiau Rhwydweithiau Ecolegol Gadarn | Cynllun Datblygu/Datganiadau Ardal/Datganiad Isadeiledd Gwyrdd | |

Gweler PCC12 am fwy o arweiniad. **Polisi Cynllunio Cymru | LLYW.CYMRU**

# Adnoddau


1. Welsh Government's Approach to Net Benefits for Biodiversity and the DECCA Framework in the Terrestrial Planning System CIEEM Briefing Paper September 2022 **Net-Benefits-briefing.pdf (cieem.net)**
2. **Bioamrywiaeth a chydnerthedd y ddyletswydd ecosystemau (adran 6): canllawiau i awdurdodau cyhoeddus | LLYW.CYMRU**
3. Sanderson Bellamy, A., J. Latham, S. Spode, S. Ayling, R. Thomas, and K. Lindenbaum. (2021). A framework for ecosystem resilience in policy and practice: DECCA. Ecology and Society, 26(4):31. **https://doi.org/10.5751/ES-12865-260431**
4. Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol: Asesiad o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. **Pennod 4. Ecosystemau Cadarn https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/?lang=cy**


**This document is also available in English.**